Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 08.10.25 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb parthed: Strategaeth genedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol 2025 - 2035 |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

### Ymateb

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cefnogi cyflwyno strategaeth genedlaethol 10 mlynedd ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Mae gan bawb gyfrifoldeb am ddiogelu plant a phobl ifanc, ac mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio i'w hamddiffyn rhag niwed. Rydym yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag ystod eang o randdeiliaid priodol, yn cynnwys dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, wrth ffurfio'r strategaeth hon.

- Credwn fod yr amcanion tymor hir arfaethedig a'r camau blaenoriaeth yn briodol, ar y cyfan. Mae cynnwys amcan ychwanegol i ddatblygu set ddata graidd ar gam-drin plant yn rhywiol yn hynod bwysig. Fel yr amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r casgliad data cyfredol yn annigonol. Dylai'r camau a amlinellir yn Adran 3 wella cwmpas ac ansawdd y data a gesglir, yn cynnwys am nodweddion gwarchodedig, gan felly ddarparu darlun cenedlaethol mwy cywir o gam-drin. Mae ein hadroddiadau thematig—'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon': Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru (Mawrth 2022) ac Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach (Mehefin 2023)—yn cynnwys argymhellion ar gyfer darparwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru a fydd yn cefnogi'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth hon.
- Rydym yn cymeradwyo'r pwyslais ar gydweithio amlasiantaethol cryf a rhannu gwybodaeth yn amserol. Mae Estyn wedi cyfrannu at yr Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ledled Cymru, lle bu arolygiaethau'n gweithio gydag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd. Mae'r model hwn wedi bod yn effeithiol o ran cryfhau cydweithio a gwella arferion rhannu gwybodaeth, gan gefnogi nodau'r strategaeth arfaethedig yn uniongyrchol.
- Mae hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr, a phobl eraill sy'n rhyngweithio'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc yn hanfodol. Dylai hyfforddiant o'r fath eu galluogi i adnabod arwyddion o gam-drin rhywiol ac ymateb yn briodol ac yn brydlon pan gaiff pryderon eu datgelu.
- Mae cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth glir o berthnasoedd iach ac afiach yn flaenoriaeth allweddol arall. Mae cyfeiriad y strategaeth at elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ABRh) Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae gan ABRh rôl hanfodol mewn arfogi dysgwyr i nodi perthnasoedd diogel a pharchus a'u grymuso i adrodd am

bryderon. Rydym hefyd yn croesawu'r nod i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus i adrodd am bryderon. Credwn y gellid gwella'r strategaeth ymhellach trwy roi pwyslais cryfach ar gynyddu hyder gweithwyr proffesiynol i sicrhau bob amser ac yn briodol fod lleisiau pobl ifanc yn cael eu ceisio a'u clywed pan fydd amheuon neu honiadau o gam-drin rhywiol.

Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gam-drin plant yn rhywiol ac atgyfnerthu cyfrifoldeb cymunedol yn hanfodol. Bydd adfywio ymgyrchoedd fel 'Galwa Nawr' ('Making the Call') yn helpu sicrhau bod unigolion yn deall eu rôl mewn diogelu plant, yn y cartref ac mewn cymunedau lleol.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Adran 1

Mae Adran 1 y ddogfen yn esbonio gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef:

"Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd rhag cam-drin rhywiol ac mae pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes".

Mae'r adran hon hefyd yn esbonio bod angen ymagwedd system gyfan i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, ac mae hyn yn cynnwys atal, nodi, ymateb, cydweithio, monitro a gwerthuso.

Cwmpas y strategaeth yw pobl o'r adeg y cânt eu geni hyd ddiwedd eu hoes sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol, ac mae'n cynnwys pob math o gam-drin rhywiol. Cymerwyd y disgrifwyr ar gyfer y mathau o gam-drin o waith a gwblhawyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).

Arweiniodd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a roddwyd ar waith rhwng 2019 a 2022, at ddatblygu adnoddau sylweddol. Roedd y cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau diogelu rhanbarthol sefydlu cynlluniau gweithredu i gyflawni ei amcanion. Mae gwersi a ddysgwyd o'r cynllun gweithredu cenedlaethol a chamau arfaethedig pellach wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft.

Sbardun allweddol arall ar gyfer y strategaeth hon yw'r argymhellion o adroddiadau gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA), yn cynnwys yr argymhellion yn yr adroddiad terfynol gan IICSA i Lywodraeth Cymru sydd wedi cael eu hymgorffori yn y strategaeth. Rydym yn bwriadu i'r strategaeth fod yn gyfrwng cyflwyno ar gyfer yr argymhellion o'r adroddiad terfynol.

Yn adran 1.6, rydym wedi rhestru'r camau blaenoriaeth a awgrymwyd i ni gan randdeiliaid yn ystod ymgysylltu. Y rhain nid yn unig yw'r camau y mae angen i ni eu cymryd, ond mae rhanddeiliaid yn credu mai'r camau blaenoriaeth hyn fydd yn cael yr effaith fwyaf sylweddol ar arfer o amgylch cam-drin plant yn rhywiol yn y cyfnod amser byrraf.

| |
|---|
| **Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod angen i ni gael strategaeth 10 mlynedd yn hytrach na chynllun gweithredu 3 blynedd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru?**<br><br>Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig am strategaeth 10 mlynedd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru, yn hytrach na chyfyngu'r ymateb i gynllun gweithredu cenedlaethol tair blynedd. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn her hirsefydlog a chymhleth sy'n gofyn am ymagwedd gynaledig, system gyfan. Byddai strategaeth sy'n para degawd yn darparu'r sefydlogrwydd, y parhad a'r aliniad polisi angenrheidiol ar draws y llywodraeth ac asiantaethau partner i gyflawni newid ystyrlon a pharhaol.<br><br>Byddai strategaeth tymor hirach yn galluogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ymgorffori mesurau ataliol, cryfhau trefniadau diogelu amlasiantaethol, a sicrhau buddsoddiad cynaledig mewn datblygu'r gweithlu. Byddai hefyd yn darparu'r amser a'r fframwaith sydd eu hangen i werthuso effaith, addasu dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth, a sicrhau nad yw gwelliannau'n fyrhoedlog ond yn cael eu hymgorffori'n systematig.<br><br>Bydd atebolrwydd yn hanfodol. Mae Estyn yn ystyried ei bod yn hanfodol bod y Grŵp Gweithredu Strategol yn adrodd i Weinidogion bob chwe mis, gan ddarparu tystiolaeth gadarn o gynnydd a nodi risgiau rhag cyflwyno cyn gynted ag y bo modd. Bydd llinellau atebolrwydd clir yn rhoi hyder fod camau nid yn unig yn cael eu gweithredu ond eu bod hefyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a phobl ifanc.<br><br>O safbwynt arolygu, mae gorwel deng mlynedd hefyd yn darparu'r cyfle i barhau i amlygu disgwyliadau diogelu o fewn fframweithiau arolygu, monitro'u heffaith ar draws cylchoedd lluosog, a nodi tueddiadau tymor hir mewn diwylliant ac arfer diogelu.<br><br>Amlygodd yr Archwiliad Cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar sail Grŵp (y Farwnes Casey o Blackstock DBECB, Mehefin 2025) na ddilynwyd gweithredu argymhellion yr IISCA yng Nghymru gyda "chadernid na phenderfyniad digonol." Mae'r canfyddiad hwn yn dangos risgiau cynllunio tymor byr, tameidiog ac yn atgyfnerthu'r achos am fframwaith strategol tymor hirach y mae penderfyniad, disgyblaeth a thryloywder yn sail iddo. |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â gweledigaeth Llywodraeth Cymru?**<br><br>**"Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd rhag cam-drin rhywiol ac mae pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes."**<br><br>Mae Estyn yn cytuno'n llawn fod gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn uchelgeisiol: *"Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd rhag cam-drin rhywiol ac mae pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn cael* |

*eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes."* Mae'r weledigaeth hon yn gywir i roi hawliau, diogelwch a lles plant yn ganolog i bolisi cenedlaethol, ac yn adlewyrchu ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a diogelu pob plentyn.

Mae Estyn yn cydnabod rôl darparwyr addysg yn benodol wrth atal a nodi'n gynnar. Mae ysgolion a cholegau mewn sefyllfa unigryw i feithrin ymwybyddiaeth o ddiogelu, arfogi plant a phobl ifanc â'r wybodaeth a'r hyder i godi eu llais, a darparu amgylcheddau diogel y gellir nodi pryderon ynddynt a'u gweithredu.

Mae gan Estyn ddyletswydd statudol i gynghori Gweinidogion Cymru, a thrwy ein harolygiadau a'n hadroddiadau thematig, rydym yn darparu tystiolaeth annibynnol sydd eisoes yn ffurfio polisi diogelu cenedlaethol. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa i gefnogi cyflawni'r weledigaeth trwy barhau i amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, bydd ein hadroddiad thematig sydd ar ddod ar sut mae ysgolion yn cefnogi perthnasoedd iach yn waelodlin fuddiol.

**Cwestiwn 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r camau blaenoriaeth a restrir yn adran 1.6?**

Mae'r camau canlynol wedi cael eu cytuno gyda'n rhanddeiliaid yn flaenoriaeth, ac rydym yn credu y bydd gweithredu'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i arfer yn y maes hwn ac felly'n gwella deilliannau ar gyfer pobl yng Nghymru. Nid yw hon yn rhestr hierarchaidd, ac mae pwysigrwydd cyfartal i bob un o'r camau blaenoriaeth, sef:

1. Gwella casglu, adrodd a dadansoddi data ar gam-drin plant yn rhywiol, a'i ddefnyddio i lywio polisi ac arfer.

2. Codi ymwybyddiaeth ymhlith plant, teuluoedd a chymunedau am sut i nodi ac adrodd am bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.

3. Annog sgyrsiau agored am berthnasoedd iach, rhywioldeb, iechyd rhywiol, a cham-drin rhywiol ymhlith plant, rhieni, gofalwyr, cymunedau a gweithwyr proffesiynol.

4. Sicrhau bod yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn gyson ledled Cymru trwy weithredu llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol.

5. Codi ymwybyddiaeth am y llwybr cenedlaethol ar gyfer ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol a ddatblygwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, a darparu hyfforddiant arno.

6. Datblygu a gweithredu fframwaith hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol yn unol â'r grwpiau a esbonnir yn y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

7. Cynorthwyo ymarferwyr o bob sefydliad i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol, teimlo'n hyderus i roi gwybod am bryderon, a'r rhai sydd â rolau diogelu i asesu a rheoli risg yn effeithiol.

8. Mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau sy'n darparu cymorth arbenigol ac anarbenigol ar gyfer plant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr i sicrhau bod pobl sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol yn gallu manteisio ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir iddyn nhw.

Mae Estyn yn cytuno â phob un o'r camau blaenoriaeth a amlinellir yn Adran 1.6. O'u cymryd gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli ymagwedd gynhwysfawr a chytbwys at fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru, ac mae pob cam yn cyfrannu mewn ffordd hanfodol tuag at atal, nodi, ymyrraeth a chymorth. Rydym yn arbennig yn croesawu'r gydnabyddiaeth fod pwysigrwydd cyfartal i'r blaenoriaethau hyn a rhaid mynd ar drywydd hyn ar y cyd i sicrhau newid ystyrlon.

Mae gwella'r drefn o ran casglu, adrodd a dadansoddi data cywir yn hanfodol. I lywio polisi ac arfer yn effeithiol, rhaid i ddata ymestyn y tu hwnt i gofrestriadau amddiffyn plant a chynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig dioddefwyr a goroeswyr. Mae sut caiff data ei ddadansoddi, ei adrodd a'i ddefnyddio yr un mor bwysig. Heb ddadansoddi trylwyr a mecanweithiau adrodd clir, mae perygl na fydd data'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol. Bydd defnydd systematig o ddata yn cryfhau gwneud penderfyniadau, yn llywio dyrannu adnoddau, ac yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu harwain gan dystiolaeth. Dylai codi ymwybyddiaeth ymhlith plant, teuluoedd a chymunedau am sut i nodi pryderon ac adrodd amdanynt wella pa mor aml yr adroddir am achosion o gam-drin, os gwneir hyn yn fuddiol. Er mwyn i'r strategaeth hon fod yn llwyddiannus, rhaid i strategaethau cyfathrebu fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gyson ledled Cymru. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn fformatau lluosog, gan gynnwys gwahanol ieithoedd, a'i chyflwyno trwy sianelau sy'n cyrraedd grwpiau amrywiol.

Mae Estyn yn cytuno'i bod yn bwysig sicrhau bod oedolion sy'n gweithio gyda phlant mewn darparwyr addysgol yn cael eu hyfforddi i annog sgyrsiau agored am berthnasoedd iach gydag aelodau o'u cymunedau a rhwng ei gilydd. Mae fframwaith arolygu Estyn ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau (Beth rydym yn ei arolygu (2024 – 2030) yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darparwyr yn 'cefnogi' datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, yn cynnwys eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach trwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)'.

Mae ein harolygiad o ACRh o fewn Cwricwlwm newydd i Gymru yn darparu lens werthfawr ar ba mor effeithiol y mae darparwyr yn arfogi dysgwyr i ddeall perthnasoedd iach a chodi llais yn erbyn cam-drin. Felly, gall tystiolaeth arolygu gyfrannu'n uniongyrchol at fonitro llwyddiant y camau blaenoriaeth hyn.

Cefnogwn yn gryf ddatblygu fframwaith hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol sy'n cyd-fynd â'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Rhaid arfogi ymarferwyr ar draws pob sefydliad nid yn unig i adnabod arwyddion o gam-drin, ond i ymateb yn briodol ac yn hyderus, hefyd. Bydd cryfhau hyfforddiant yn lleihau'r risg fod pryderon yn cael eu hanwybyddu ac yn sicrhau atgyfeiriad amserol at asiantaethau priodol.

**Os ydych chi wedi ateb eich bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ag unrhyw un o'r 3 chwestiwn, allwch chi esbonio pam ac awgrymu unrhyw newidiadau a chamau blaenoriaeth eraill i ni eu hystyried:**

Dd/b

## Adran 2

Mae Adran 2 y strategaeth ddrafft yn amlinellu sail y dystiolaeth ar gyfer gweledigaeth Llywodraeth Cymru, yr amcanion strategol a'r camau blaenoriaeth yr ydym wedi'u dewis.

**Cwestiwn 1: Allwch chi ddweud wrthym am unrhyw dystiolaeth arall yr ydych yn meddwl bod angen i ni ei hystyried ar gyfer fersiwn derfynol y strategaeth?**

Mae Estyn yn croesawu ehangder y dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r strategaeth ddrafft. Mae'n glir fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n briodol ag ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid, yn cynnwys gwrando ar leisiau plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Maent hefyd wedi cynnal adolygiad priodol o lenyddiaeth ac wedi ystyried arfer orau o wledydd eraill. Yn ychwanegol, rhoddwyd ystyriaeth lawn i ganfyddiadau adroddiadau a chynlluniau cenedlaethol blaenorol, gan gynnwys, yn bwysicaf, adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).

Wrth gwblhau'r strategaeth, bydd yn bwysig sicrhau bod y corff hwn o dystiolaeth nid yn unig yn cael ei gydnabod ond yn cael ei droi yn gamau clir a mesuradwy. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar y canlynol, hefyd:

- nodi meysydd lle mae tystiolaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig, er enghraifft profiadau plant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, neu'r rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a chomisiynu ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.
- sicrhau bod mecanweithiau cadarn yn cael eu cynnwys yn y strategaeth i werthuso effaith dros gyfnod, er mwyn i wersi allu parhau i gael eu dysgu a mireinio dulliau.
- defnyddio safbwyntiau ymarferwyr rheng flaen ymhellach i sicrhau bod y strategaeth yn realistig, yn gyflawnadwy, ac yn cael ei chefnogi gan hyfforddiant ac adnoddau priodol.

O'u cymryd gyda'i gilydd, byddai'r camau hyn yn helpu sicrhau bod y strategaeth derfynol yn gynhwysfawr, wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac yn gallu gyrru gwelliannau cynaledig mewn arfer a deilliannau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn ogystal â'r ffynonellau a ddyfynnwyd, mae adolygiadau thematig Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion (2022; 2023) a'n gwaith arolygu ar y cyd ar

drefniadau amddiffyn plant yn cynnig mwy o dystiolaeth o heriau cyfredol ac arfer effeithiol. Bydd ymgorffori'r dystiolaeth arolygu hon o fewn y strategaeth yn sicrhau bod camau'n cael eu llywio gan ganfyddiadau annibynnol ar draws y system.

**Adran 3**

Mae Adran 3 y strategaeth ddrafft yn amlinellu'r amcanion strategol rydym wedi'u nodi a'r camau blaenoriaeth y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn dros y cyfnod o 10 mlynedd. Nid y rhain yw'r unig gamau yr ydym yn bwriadu eu cymryd o dan bob ffrwd waith. Fodd bynnag, maent yn gamau y mae rhanddeiliaid wedi cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.

Yn y strwythur cyflawni, rydym yn cynnig yn Adran 4 y bydd gan bob un o'r amcanion grŵp ffrwd waith. Gwaith y grwpiau hyn fydd datblygu cynlluniau gweithredu manwl i gyflawni'r camau blaenoriaeth yr ydym wedi cytuno arnynt.

Bydd y broses cynllunio gweithredu ar gylch 3 blynedd a bydd yn cael ei diwygio, a phethau'n cael eu hychwanegu ati, wrth i ni fynd yn ein blaenau. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod unrhyw ddysgu yr ydym yn ei nodi yn cael ei ddefnyddio i lywio fersiwn nesaf y cynllun gweithredu.

Dyma'r 4 amcan strategol yr ydym wedi'u nodi:

· atal cam-drin plant yn rhywiol

· amddiffyn plant pan fydd pryderon yn cael eu nodi am gam-drin plant yn rhywiol (yr ymateb amlasiantaethol)

· cynorthwyo plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol

· cynorthwyo dioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.

**Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r amcanion hyn yw'r rhai cywir?**

Rydym yn cytuno mai'r 4 amcan strategol yw'r rhai cywir i helpu mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. O fewn amcanion strategol a chamau blaenoriaeth Adran 3, mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'n briodol y deilliannau tymor hir i'w cyflawni a'r camau priodol y bydd angen eu cymryd i gyflawni'r deilliannau tymor hir. Bydd Estyn yn profi a yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni trwy arolygu, gan gynnwys gwerthuso pa mor dda y mae arweinwyr yn creu diwylliant diogelu, sut mae darparwyr yn gweithredu polisïau effeithiol, a pha mor dda y caiff lles dysgwyr ei hyrwyddo yn ymarferol.

**Os ydych chi wedi ateb eich bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, allwch chi esbonio pam ac awgrymu amcanion eraill i ni eu hystyried:**

Dd/b

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n meddwl y bydd y camau yr ydym wedi'u hamlinellu o dan bob un o'r amcanion strategol yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth gyffredinol?**

**"Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd rhag cam-drin rhywiol ac mae pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes."**

Mae Estyn yn credu bod gan yr amlinelliad o'r camau ar gyfer pob amcan strategol, yn ogystal â chasglu data, y potensial i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei gweledigaeth gyffredinol.

**Amcan 1: Atal cam-drin plant yn rhywiol**

Mae atal yn golygu bod angen arfogi plant a phobl ifanc â'r wybodaeth, y medrau a'r hyder i ddeall beth mae perthynas iach yn ei olygu, ac adnabod ymddygiadau sy'n amhriodol neu'n niweidiol. Rydym yn argymell y dylid cynnwys deilliant ychwanegol i adlewyrchu hyn yn eglur. O fewn y camau, teimlwn y dylai fod un i gynnwys gweithio gyda phobl sy'n nodi eu bod nhw eu hunain mewn perygl o gam-drin plant, gan gynnig ymyrraeth gynnar a chymorth targedig i leihau'r tebygolrwydd y bydd cam-drin yn digwydd.

**Amcan 2: Amddiffyn plant a phobl ifanc ni waeth beth yw eu pryderon am gam-drin plant yn rhywiol**

Teimlwn y dylid rhoi lefel addas o hyfforddiant i wirfoddolwyr mewn ysgolion a sefydliadau eraill i'w helpu i nodi ac ymateb i gam-drin rhywiol, ochr yn ochr â bod yr holl weithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant priodol ar gam-drin plant yn rhywiol. Yn aml, gwirfoddolwyr a staff atodol yw'r cyntaf i sylwi ar newidiadau yn ymddygiad dysgwyr. Bydd eu cynnwys mewn llwybrau hyfforddiant a diogelu yn cryfhau nodi'n gynnar. Mae hefyd yn bwysig addysgu plant a phobl ifanc o oedran cynnar mewn ffordd sy'n briodol i oedran i ddeall sut i adnabod a ydynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, a datblygu didwylledd am rannu pryderon gyda gweithwyr proffesiynol. Mae gallu troi at oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn hanfodol, a dylai plant allu ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sy'n adlewyrchu eu cefndir neu'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ble bynnag y bo modd, oherwydd gall hyn helpu meithrin ymddiriedaeth a chynyddu'r tebygolrwydd o ddatgelu. Credwn y gellid gwella'r camau ymhellach trwy roi pwyslais cryfach ar gynyddu hyder gweithwyr proffesiynol i sicrhau bob amser ac yn briodol y gwrandewir ar leisiau plant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu clywed pan fydd amheuon neu honiadau o gam-drin rhywiol, yn hytrach na rhoi'r baich yn unig ar gynyddu hyder plant a phobl ifanc i roi gwybod am achosion o gam-drin yn rhywiol.

**Amcan 3: Cefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol**

Mae cymorth amserol, sy'n ystyriol o drawma ac yn hygyrch yn hanfodol. Credwn o fewn yr amcan tymor hir cyntaf ei bod yn bwysig i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin yn rhywiol allu elwa ar gymorth amserol priodol yn eu dewis iaith, ble bynnag y bo modd, gan sicrhau nad yw rhwystrau ieithyddol yn atal adferiad nac ymgysylltiad. Yn aml, mae gallu darparwyr i ddiogelu'n effeithiol yn dibynnu ar amseroldeb a chapasiti gwasanaethau cymorth allanol. Heb ddarpariaeth ddigonol mewn ardaloedd lleol, mae risg na all hyd yn oed staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda bob amser sicrhau'r cymorth sydd ei angen ar blant yn gyflym.

**Amcan 5: Set ddata ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol**

Rydym yn croesawu'r ffocws ar ddata ond yn pwysleisio bod rhaid i setiau data gynnwys nodweddion gwarchodedig i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o fynychter a natur cam-drin yng Nghymru. Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer casglu data, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, yn cofnodi hyn yn llawn. Mae angen ystyried y set ddata gytûn yn ofalus i wneud yn siŵr ei bod yn cynrychioli darlun mwy cywir o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Mae angen dadansoddi data yn drylwyr i helpu llywio polisi ac arfer. Gall Estyn gyflenwi data ystadegol trwy ddadansoddi canfyddiadau arolygu i nodi themâu a thueddiadau diogelu nad ydynt efallai wedi'u cofnodi mewn setiau data yn unig.

**Os ydych chi wedi ateb 'na', a oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer camau yr ydych yn meddwl y dylid eu hychwanegu?**

Dd/b

**Cwestiwn 3: Ai'r partneriaid allweddol a restrir yn adran pob amcan strategol yw'r partneriaid cywir ar gyfer y camau?**

Yn gyffredinol, credwn mai'r partneriaid allweddol a restrir ar gyfer pob amcan yw'r partneriaid cywir i helpu cyflawni camau.

**Os na, pa bartneriaid eraill y dylid eu cynnwys:**

- Dylid ychwanegu addysg at Amcan 1 oherwydd gall gweithwyr addysg proffesiynol fod â rôl allweddol trwy eu perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â rhieni a theuluoedd.
- Gellid ychwanegu arweinwyr a grwpiau cymunedol at Amcan 2 a 3, oherwydd, yn aml, mae ganddynt berthnasoedd cryf ac ymddiriedus ag aelodau o'u cymunedau, ac maent yn rhyngweithio â nhw yn aml.

- Mae darparwyr addysg a staff (ysgolion, colegau a gweithwyr ieuenctid) ledled Cymru sy'n gweithio gydag oedolion ifanc, felly dylid ychwanegu addysg at y partneriaid cyflenwi ar gyfer Amcan 4.
- Ar gyfer Amcan 5, mae gan weithwyr addysg proffesiynol ran mewn sicrhau bod datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol yn gadarn a defnyddiol, ac felly dylid cynnwys hyn yn y rhestr o bartneriaid cyflenwi ar gyfer yr amcan.

**Adran 4**

Mae Adran 4 y strategaeth ddrafft yn amlinellu sut byddwn yn cydweithio o fewn Llywodraeth Cymru a gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y polisi'n gydnaws, ac yn cyd-fynd â'r gwerthoedd sy'n sail i'r strategaeth hon, a bod ymagwedd system gyfan, ar y cyd, at fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

I gefnogi'r ymagwedd system gyfan hon, byddwn yn sefydlu grŵp cynghori polisi mewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol.

Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu ein strwythur cyflawni arfaethedig ar gyfer y strategaeth. Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth, rydym yn bwriadu sefydlu Grŵp Gweithredu Strategol i fonitro a gwerthuso effaith y strategaeth. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau statudol.

O dan y Grŵp Gweithredu Strategol, bydd grŵp ffrwd waith ar gyfer pob un o'r amcanion strategol. Bydd pob un o'r grwpiau hyn yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Grŵp Gweithredu Strategol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu Fforwm Plant a Phobl Ifanc sefydlog a Grŵp Cynghori i Ddioddefwyr-Oroeswyr.

**Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd y strwythur cyflawni yr ydym yn ei gynnig yn ein cynorthwyo i gyflawni'r amcanion strategol yn effeithiol, a chyflawni'r weledigaeth?**

Mae Estyn yn cytuno bod y strwythur cyflawni arfaethedig yn briodol a bod ganddo'r potensial i gefnogi cyflawni'r amcanion strategol a'r weledigaeth gyffredinol yn effeithiol. Mae'r strwythur cyflawni arfaethedig ar gyfer y strategaeth a amlinellir yn Atodiad 2 yn grynodeb defnyddiol o sut bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni.

Rydym yn arbennig yn croesawu sefydlu Grŵp Gweithredu Strategol sydd â chyfrifoldeb am fonitro ac adrodd ar gynnydd. Bydd y corff hwn yn hanfodol o ran sicrhau bod camau'n cael eu cyflawni mewn modd amserol, eu gwerthuso'n drylwyr, a'u haddasu, lle bydd angen.

Rydym yn argymell y dylid rhoi rôl ffurfiol o fewn y Grŵp Gweithredu Strategol i arolygiaethau annibynnol fel Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Byddai eu cynnwys yn ychwanegu llais gwrthrychol ac yn sicrhau bod cyflwyno'n cael ei lywio'n barhaus gan dystiolaeth arolygu.

**Os ydych chi wedi ateb eich bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, allwch chi esbonio pam a sut beth rydych chi'n meddwl ddylai'r strwythur fod:**

Dd/b

**Cwestiwn 2: A oes unrhyw gamau eraill y dylem eu hychwanegu at y strategaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?**

Mae Estyn yn cydnabod bod y strategaeth ddrafft yn cyfeirio'n briodol at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad i wreiddio'r egwyddorion hyn drwyddi draw. Mae dadansoddiad o ddata cyfredol a amlygwyd yn y ddogfen yn dangos bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu mwy o risg o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n bwysig cynnwys y wybodaeth hon mewn unrhyw hyfforddiant ar gyfer oedolion sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall pwysigrwydd adnabod arwyddion posibl o gam-drin, yn enwedig ymhlith grwpiau risg uchel.

Mae arolygiadau Estyn yn adrodd yn rheolaidd ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol. Gall defnyddio'r dystiolaeth hon helpu targedu camau'r strategaeth tuag at y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Cefnogwn yn gryf hefyd roi cefnogaeth gref i'r pwyslais ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar gymorth yn eu dewis iaith. Mae cael mynediad at wasanaethau amserol, sy'n ieithyddol briodol, yn hanfodol wrth ddileu rhwystrau, meithrin ymddiriedaeth, a sicrhau bod pob un o'r plant a'r teuluoedd yn teimlo'u bod yn cael eu clywed a'u cefnogi. Bydd cynnwys nodweddion gwarchodedig yn y cynigion ar gyfer set ddata graidd newydd yn helpu cryfhau'r gwaith hwn, a dylai helpu cynyddu deilliannau ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc fregus sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol trwy newid polisi yn ymarferol.

**Os oes, allwch chi awgrymu beth allem ni ei gynnwys yn y blwch testun isod?**

Dd/b

**Cwestiwn 3: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y strategaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb yn arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dylai sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg wrth fynd i'r afael â'r deilliannau tymor hir a chymryd y camau olygu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 4: A allai'r strategaeth gael ei ffurfio neu'i newid i gryfhau:**

Dylai sicrhau bod gwasanaethau ar gael i blant, pobl ifanc ac oedolion eu defnyddio yn Gymraeg gael ei amlygu trwy gydol yr amcanion a'r camau blaenoriaeth. Dylid trefnu bod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gael yn ddwyieithog a sicrhau bod pwysigrwydd darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin plant ledled y wlad yn cael ei bwysleisio wrth fynd i'r afael â'r amcanion. Bydd hyn yn gwella'r tebygrwydd fod plentyn neu berson ifanc yn datgelu unrhyw achos o gam-drin. Fel enghraifft, mae Estyn wedi nodi enghreifftiau o arfer gref o ran diogelu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig o ran y modd y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chyflwyno. Gallai rhannu'r arfer dda hon yn genedlaethol gryfhau darpariaeth ddwyieithog a llywio hyfforddiant proffesiynol.